**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (BGC)**

Dydd Mercher, 12fed Mehefin 2019 10:00yb-12:00yp

Tŷ Coch, Parc Menai

# COFNODION

| ENW | SEFYDLIAD |
|---|---|
| Ffion Johnstone | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Cyng. Dyfrig Siencyn | Cyngor Gwynedd |
| Shan Morris | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Jerry Hunter | Prifysgol Bangor |
| Emyr Williams | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Siobhan Adams | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Catrin Parry | Gwasanaeth Prawf |
| Elizabeth Woodcock | Ymchwilydd Ôl Raddedig |
| Dilwyn Williams | Cyngor Gwynedd |
| Ffrancon Williams | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Sian Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Sian Purcell | Medrwn Môn |
| Richie Green | Heddlu Gogledd Cymru |
| Cyng. Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Annwen Morgan | Cyngor Sir Ynys Môn |

| Yn mynychu | |
|---|---|
| Nonn Hughes | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| Alwyn Rhys Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Morwena Edwards | Cyngor Gwynedd |
| Dr Rachel Andrew | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

| Ymddiheuriadau | |
|---|---|
| Dr Gwynne Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Bethan Russell Williams | Mantell Gwynedd |
| Dewi Wyn Jones | Cyngor Gwynedd |
| Gary Doherty | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Sioned Rees | Llywodraeth Cymru |
| Stephen Hughes | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu |

**1. Cylch Gorchwyl - eitem sefydlog**

Dim newidiadau i'w cyflwyno.

**2. Cofnodion i'w cymeradwyo a materion yn codi**

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r trafodaethau.
Ceir grynodeb o'r pwyntiau gweithredu a ddeilliodd o'r cyfarfod diwethaf isod:

1. Copi o'r cyflwyniad (Cynllun Arfer) i'w gylchredeg at aelodau'r Bwrdd yn dilyn y cyfarfod - Cwblhawyd
2. Copi o gyflwyniad y Bwrdd Iechyd i'w gylchredeg at aelodau'r Bwrdd yn dilyn y cyfarfod - Cwblhawyd
3. Ffion Johnstone ar ran yr is-grŵp iechyd a gofal i gyflwyno papur i'r BGC sy'n amlinellu'r berthynas rhwng cynllun 3 blynedd Iechyd, Cynllun y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a chynlluniau gwaith yr is-grŵp Iechyd a Gofal. Cwblhawyd
4. Yr is-grŵp cartrefi i ystyried y gweithredoedd uchod ac felly sicrhau bod amcanion a thrywydd y prosiect yn glir erbyn y cyfarfod ym mis Mehefin 2019. Cwblhawyd
5. Yr is-grŵp newid Hinsawdd i roddi ystyriaeth i'r gwaith a gwblhawyd ar gyfer y Cynllun Rheoli Traethlin, ac i gadarnhau amcanion yr is-grŵp. Gwaith ar droed
6. NH i drefnu cyfarfod hefo Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i drafod eu cynlluniau gwaith yn y maes tlodi a threfnu iddynt ddarparu cyflwyniad yng nghyfarfod y Bwrdd ar 12fed Fehefin. Cwblhawyd

**3. Cyflwyniadau ar 'Dlodi' gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd**

Cafwyd cyflwyniadau ar raglenni gwaith Cyngor Sir Ynys Môn (Alwyn Rhys) a Chyngor Gwynedd (Morwena Edwards) mewn perthynas â'r pwnc 'tlodi'. Amlygwyd cydgysylltiad rhwng y 2 gyflwyniad - gyda'r gydnabyddiaeth y bydd tlodi yn bodoli mewn cenedlaethau i ddod, a bod y ddau Gyngor am ganolbwyntio ar ddarparu'r gefnogaeth briodol ar yr amser cywir. Golygir hyn ystyried yr ymatebion ac ymyraethau drwy lygaid trigolion Gwynedd ac Ynys Môn.

**Croesawyd sylwadau a chwestiynau ar y cyflwyniadau**

Agorwyd y drafodaeth trwy nodi fod angen cryfhau'r berthynas rhwng addysg a thlodi, a bod angen i ni fel cyrff cyhoeddus weithio hefo'n pobl ifanc.

Cyfeiriwyd at enghraifft dda o gydweithio rhwng Ysgol Santes Dwynwen ar Ynys Môn a'r cynllun Dechrau'n Deg, sy'n targedu teuluoedd mwyaf difreintiedig.

Nodwyd fod y berthynas rhwng addysg a thlodi yn gallu profi i fod her gan nad oes arweiniad cenedlaethol ar hyn.

Cafwyd trafodaeth fod lles a llwyddiant pobl ifanc yn flaenoriaeth sydd wedi ei nodi yn y Cynllun Llesiant. Mae is- grŵp plant sy'n deillio o'r Grŵp Iechyd a Gofal Integredig yn canolbwyntio ar lesiant yn hytrach na deilliannau addysgol, ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny nodwyd bod cynrychiolwyr o'r sefydliadau addysg yn cael eu gwahodd i gyfrannu at waith yr is-grŵp plant.

Cafwyd trafodaeth am beth yw rôl y Bwrdd mewn perthynas â datblygu sgiliau. Cadarnhawyd bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r bid twf yn mynd i'r afael a'r materion sgiliau. Mynegodd CNC bod hi'n profi yn anodd iddynt lenwi rhai swyddi o fewn eu sefydliad a bod bylchau mewn sgiliau penodol yn yr ardal. Ychwanegodd Iechyd Cyhoeddus Cymru eu bod hwythau yn cael anhawster recriwtio staff cymwysedig Cymraeg. Cafwyd trafodaeth am y syniad o gydweithio ar y cynnig prentisiaethau - sef rhoi cyfle i unigolion dreulio cyfnod o amser gyda chyrff cyhoeddus gwahanol. Gofynnwyd i ymchwilio'r mater yma ymhellach.

Nodwyd bod y cyflwyniadau gan yr Awdurdodau Lleol wedi cyfeirio at y defnydd o grantiau a holwyd pa mor fregus yw'r sefyllfa bresennol. Nodwyd yn ogystal nad oedd y cyflwyniadau wedi cyfeirio at Brexit ac effaith hynny ar dlodi. Dywedodd Arweinydd CSYM bod grantiau yn her i'r Awdurdodau Lleol a'u bod yn brwydro yn erbyn y model ariannu sy'n cael ei osod a'i gytuno gan y Llywodraeth.

Mynegwyd gwerthfawrogiad i'r ddau Awdurdod Lleol am eu cyflwyniadau. Fel ffordd ymlaen cytunwyd i'r Awdurdodau Lleol barhau â'r gwaith, ac ymestyn allan i bartneriaid ehangach maes o law.

Cafwyd gwahoddiad gan y gwasanaeth prawf i aelodau eraill gysylltu os oes ganddynt ddiddordeb mewn canfod mwy / cydweithio ar eu prosiect Wisdom.

Mewn perthynas â'r drafodaeth am Brexit cyfeiriwyd at brosiectau fydd yn dod i derfyn yn sgil effaith Brexit. Cytunwyd y bydd gan y BGC rôl i'w chwarae pan fydd gwell dealltwriaeth ar ddatblygiadau a'r heriau i'r dyfodol.

Cyfeiriwyd at arolygiad sy'n cael ei gynnal gan Swyddfa Archwilio Cymru - a bydd cyfle i aelodau'r BGC gyfrannu tuag ato.

| |
|---|
| 1. Gwneud gwaith ymchwil pellach ar y cynnig o gyfleoedd prentisiaeth ar y cyd- i ganfod os oes gwerth ychwanegol i ni ei gynnig cyfle / profiad ar draws y cyrff cyhoeddus. |

**4. Cynlluniau gweithredu i'w cyflwyno gan arweinyddion y blaenoriaethau**

**<u>Amcan 1 - Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hirdymor -</u>**

**<u>Cartrefi ar gyfer pobl leol</u>**

Cafwyd diweddariad gan Ffrancon Williams. Nodwyd bod aelodau'r grŵp yn cydweithio'n dda iawn. Mae'r is-grŵp wedi cytuno i flaenoriaethu datblygu modelau tai arloesol. Gwnaethpwyd y sylw nad

oedd angen dibynnu ar sgiliau a dulliau traddodiadol. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith y gellir adeiladu tai arloesol ar raddfa gyflymach.

Adroddwyd yn ogystal bod modd cychwyn efo tai - ond fe allwn ddefnyddio'r model mewn meysydd eraill e.e. iechyd a gofal.

Gofynnwyd i'r is-grŵp amlygu pwy yw'r partneriaid. Cadarnhawyd for y 2 Gyngor, Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yn aelodau o'r is-grŵp. Cyfeiriwyd at gynrychiolaeth o gyrff cyhoeddus ehangach sydd wedi bod yn rhan o'r gweithdy i werthuso gwahanol fodelau o dai arloesol e.e. y cymdeithasau tai perthnasol a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Gwnaethpwyd cais i Iechyd a Chyfoeth Naturiol Cymru fynd yn ôl i'w sefydliadau i drafod yr asedau tai ac asedau sydd ganddynt.

Gwnaethpwyd cais i'r is-grŵp diweddaru eu Cylch Gorchwyl ac ail gyflwyno i'r BGC.

Gofynnwyd y cwestiwn os yw'r sgiliau gennym yn lleol i ddatblygu tai arloesol. Cyfeiriwyd at Gartrefi Conwy - a'u ffatri ar stad Ddiwydiannol Penrhos yng Nghaergybi, sy'n datblygu tai modwlar newydd ac ynni isel.

Adroddodd FfW ei fod wedi disgwyl cael  nifer uwch / ystod o awgrymiadau am safleoedd gan aelodau'r is-grŵp hyd yma. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd fynd yn ôl at eu sefydliadau a chadarnhau'r safleoedd.

Gofynnwyd iddynt adnabod un safle hawdd i'w ddatblygu ac un sy'n profi yn fwy o her. Cymunedau amgen - Siân Williams yw'r cyswllt rhwng yr is-grŵp cartrefi a'r is-grŵp newid hinsawdd, ac ystyried wrth gynllunio i'r dyfodol sut fydd ein cymunedau a'r arfordir yn edrych 50 mlynedd o rŵan.

Holwyd os oes Cynghorau Tref a Chymuned yn rhan o waith yr is-grŵp gan fod tir ganddynt. Cadarnhawyd nad oeddent yn rhan  o'r trafodaethau ar hyn o bryd.

<u>Adnodd rheoli prosiect</u>

Trafodwyd y cais am adnodd a'r opsiwn o ryddhau unigolyn o fewn sefydliadau. Adnabuwyd bod angen adnodd rheoli prosiect i reoli'r gwaith dydd i ddydd ac am fod yr amserlen bellach wedi llithro.

Cadarnhaodd Ynys Môn eu bod yn gallu cyfrannu £3.5k. Cytunwyd i rannu'r cyfanswm yn gyfartal rhwng CSYM, CG a Chymdeithasau Tai.

Gofynnwyd i gadarnhau trefniadau sut i gyflwyno adnoddau ar gyfer gwaith y BGC

| |
|---|
| 2. FfW  i gysylltu hefo Iechyd a Chyfoeth Naturiol Cymru i drafod asedau ymhellach<br>3. Yr is-grŵp i ddiweddaru'r Cylch Gorchwyl a'i gyflwyno i'r BGC yn ystod y cyfarfod nesaf<br>4. Awgrymiadau am safleoedd posib i'w hanfon at FfW, a'r neges yma i'w atgyfnerthu i aelodau'r is-grŵp.<br>5. Cadarnhau trefniadau sut i gyflwyno adnoddau ar gyfer gwaith y BGC, erbyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. |

**<u>Blaenoriaeth yr Iaith Gymraeg</u>**
Cafwyd diweddariad gan Jerry Hunter

Mae'r Is-grŵp wedi cytuno i flaenoriaethu prosiect Arfer. Mae Bwrdd prosiect wedi'i sefydlu ac wedi cynnal cyfarfod cychwynnol. Gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i gysylltu hefo'r is-grŵp os oes angen arweiniad ar faterion ieithyddol. Mynegodd Sian Morris o'r Gwasanaeth Tân fod ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan. Bydd Jerry yn cysylltu gyda hwy i drafod.

Atgoffwyd y Bwrdd fod gan Gyngor Sir Ynys Môn eu Fforwm Iaith a bod angen sicrhau nad yw'r is-grŵp yn dyblygu gwaith y fforwm yma.

Roedd cynrychiolaeth o'r Heddlu wedi gadael yr ystafell erbyn hyn a gofynnwyd i NH gysylltu gyda hwy i fynegi'r cynnig uchod.

Cyfeiriodd DW at yr adroddiad blynyddol a'r cyfeiriad ar yr Iaith Gymraeg. Ymddangosir o'r adroddiad cyn lleied o ymyraethau i hybu'r Gymraeg sydd wedi ei wneud gan BGC a phwysleisiwyd bod y cyrff cyhoeddus yn unigol yn gwneud lot o waith yn y maes.

| |
|---|
| 6. Jerry Hunter i gysylltu hefo'r Gwasanaeth Tân i drafod ymhellach<br><br>7.Aelodau'r Bwrdd i drafod hefo'u swyddogion Iaith os oes prosiect sydd angen sylw gan yr is-grŵp<br><br>8. NH i gysylltu hefo'r Heddlu i drafod yr uchod ymhellach. |

**Y flaenoriaeth – Newid Hinsawdd**

Cafwyd diweddariad gan Sian Williams

Cyfeiriodd Sian at lythyr sydd wedi mynd at y Prif Weinidog Cymru a gyflwynwyd gan Gyngor Gwynedd syn gwneud cais i gyfarfod i drafod addasiadau newid hinsawdd i'r dyfodol. Cytunwyd bod angen drafftio llythyr ar ran y BGC sy'n atgyfnerthu'r neges.

Cyfeiriwyd at weithdy a gynhaliwyd gan adran tai a llesiant Cyngor Gwynedd ar newid hinsawdd, fe fynychodd amrediad eang o sefydliadau cyhoeddus. Roedd ffocws y drafodaeth ar newid hinsawdd yn ehangach nag effaith llifogydd yn unig - trafod sut mae newid hinsawdd yn effeithio'r sectorau gwahanol.

Bydd yr is-grŵp yn canolbwyntio ar waith mapio cymunedau a chartrefi sy'n cael eu heffeithio gan dywydd eithafol.. Ychwanegwyd y bydd cynnal trafodaethau hefo Network Rail yn rhan o'r gwaith. Bydd llifogydd arfordirol yn rhan o'r gwaith mapio

Mae grŵp rhanbarthol BGC wedi adnabod bod newid hinsawdd yn flaenoriaeth ranbarthol a chytunwyd eu bod am ystyried datblygu prosiect rhanbarthol.

Adroddwyd hefyd am y bwriad o roi sylw i allyriadau carbon y cyrff cyhoeddus a sut gellir ymateb ar y cyd.

Cytunwyd i Sian Williams roi cyflwyniad ar y cynllun rheoli traethlin yn ystod y cyfarfod nesaf

9. SW i ddrafftio llythyr ar ran y BGC i Brif Weinidog Cymru

10. SW i roi cyflwyniad ar y cynllun rheoli traethlin yn ystod y cyfarfod ym mis Medi

**<u>Amcan 2 - Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da</u>**

Darparwyd diweddariad gan Ffion Johnstone ar waith yr Is-grŵp Integredig Iechyd a Gofal.

Nodwyd fod gwaith yr is-grŵp yn cydymffurfio â Strategaeth Cymru Iachach. Bydd y gwaith  gydag uchelgais drawsnewidiol am y 10 mlynedd nesaf.

Cadarnhawyd yr egwyddorion gweithredu sef  bod yn ataliol a chyd-gynhyrchu

Cadarnhawyd bod Meilys Smith wedi ei phenodi'n Rheolwr Rhaglen y gwaith o drawsnewid cymunedau. Mae Meilys wedi treulio amser penodol ar wardiau yn Ysbyty Gwynedd er mwyn adnabod rhwystrau a'r camau gwag sy'n bodoli yn eu prosesau.

Pwysleisiwyd bod gwaith yr is-grwp am annog y newid mewn diwylliant ac arweinyddiaeth.

Roedd yr is-grwp yn rhagweld ffordd o weithio bydd yn mynd tu hwnt i ffiniau proffesiynol a bydd ymgysylltu gyda'r staff cysylltiedig yn rhan o'r broses. Bydd y ffordd yma o weithio hefyd yn galluogi ymagwedd newydd tuag at risg.

Diolchwyd i Ffion am ei harweiniad a chyfraniad hyd yma. Nodwyd y pwysigrwydd o gadw'r momentwm fynd. Yn ogystal gofynnwyd i'r is-grwp ystyried cynllun olyniaeth, er mwyn sicrhau parhad i'r cynllun.

5. Gweithdy Byrddau Iach a gynhaliwyd gan Academi Cymru ar 6ed Fehefin

Cafwyd diweddariad yn dilyn gweithdy Byrddau Iach a gynhaliwyd gan Academi Cymru. Un o gamau gweithredu'r gweithdy oedd cynnig eitem ar gyfer agenda un o gyfarfodydd y Bwrdd. Sef cynnig i bob un o sefydliadau unigol y Bwrdd i ddarparu cyflwyniad 10 munud i grynhoi beth yw eu cynlluniau blynyddol beth maent eisiau weld yn newid yn ystod y a lle allwn ychwanegu gwerth

11.  i gysylltu hefo aelodau'r Bwrdd i amlinellu cynnwys y cyflwyniad.

6. Gohebiaeth

Cyfeiriwyd at yr ohebiaeth a gylchredwyd at aelodau'r Bwrdd.

## 7. Heriau a Chyfleon - eitem sefydlog

Dim newidiadau i'w cyflwyno

## 8. Unrhyw Fater arall

Cyfeiriodd Ffrancon at drafodaeth a gynhaliwyd yng nghyfarfod Partneriaeth Tai Gwynedd am uno trefniadau Partneriaeth Tai Gwynedd a phartneriaeth Tai Ynys Môn. Mynegodd CSYM eu bod eisiau trafod hyn yn fewnol yn y lle cyntaf. Dywedodd CG eu bod yn ei ystyried ei fod yn gam rhesymol ymlaen.

Cyfeiriwyd at gadeiryddiaeth y BGC a chadarnhawyd bod Emyr Williams wedi cytuno i gadeirio'r Bwrdd.

Diolchodd Ffrancon Williams i Ffion Johnstone am ei chyfnod yn y gadair a dymuno'n dda iddi

Adroddodd FfJ mai d cyfarfod olaf Elizabeth Woodcock ydoedd. Bydd Elizabeth Woodcock yn rhannu ei gwaith ymchwil gyda'r Bwrdd maes o law.

## 9. Dyddiad y Cyfarfod nesaf

11eg Fedi 10:00 – 12:30

Galeri, Caernarfon